Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales


**Mae'r wybodaeth hon ar eich cyfer chi os yw sgan anomaledd y ffetws yn dangos bod gan eich babi belfis yr aren ymledol (*renal pelvis dilatation* neu RPD)**

Mae'r qwybodaeth yn berthnasol  os mai RPD yw'r unig ganfyddiad annisgwylar y sgan.

Mae pob menyw feichiog yng Nghymru yn cael cynnig sgan anomaledd y ffetws pan fydd rhwng 18 ac 20 wythnos yn feichiog. Mae'r sgan yn ffordd o wirio ei bod yn ymddangos bod eich babi'n datblygu yn ôl y disgwyl. Mae hyn yn golygu y gall ddangos canfyddiadau annisgwyl y byddai angen eu gwirio wedyn gan sganiau pellach.

## Pelfis yr aren ymledol

Gelwir pelfis yr aren ymledol yn RPD hefyd. Canfyddir RPD mewn llai nag 1 o bob 100 (llai na 1%) o sganiau anomaleddau a wneir yng Nghymru.




## Beth yw RPD?

Y man yn aren eich babi ble y mae wrin yn casglu yw pelfis yr aren.  Os bydd pelfis aren yn edrych yn fwy llydan (yn fwy ymledol) na'r arfer, bydd y sonograffydd yn ei fesur.  Os bydd yn mesur mwy na 5 milimedr (mm), ystyrir ei fod yn ymledol. Gellir canfod RPD mewn un aren (unochrog) neu yn y ddwy aren (dwyochrog).

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Cewch weld bydwraig sy'n arbenigo mewn sgrinio cyn-geni neu eich meddyg yn yr ysbyty (obstetregydd) a fydd yn esbonio'r gofal y byddwch yn cael ei gynnig nesaf.

**Pa ofal fydd yn cael ei gynnig i mi?**
Os bydd yr RPD yn mesur rhwng 5.1mm a 10.0mm, cewch gynnig sgan arall yn ystod wythnosau 30 a 32 o’ch beichiogrwydd.

Os yw’n mesur 10.1mm neu fwy, yr enw ar hyn yw hydroneffrosis a chewch apwyntiad gydag obstetregydd a fydd yn trafod hyn yn fwy manwl gyda chi. Cewch gynnig sgan arall hefyd yn ystod wythnosau 30 a 32 o’ch beichiogrwydd.

**Pa wybodaeth y bydd y sgan nesaf yn ei roi i mi?**
**Os bydd y mesuriad nesaf yn 7.0mm neu lai**
Os bydd y mesuriad ar ôl y sgan nesaf yn 7.0mm neu lai, ni fydd angen unrhyw driniaeth arall. Yng Nghymru, mae hyn i’w weld mewn tuag 8 o bob 10 (80%) babi. Mae gan y babanod hyn yr un siawns o fynd i’r ysbyty gyda phroblem ar yr arennau yn ystod plentyndod â babanod heb RPD ar y sgan anomaledd.

**Os bydd y mesuriad nesaf yn 7.1mm neu fwy**

Os bydd y sgan 30 i 32 wythnos yn dangos mesuriadau RPD yn 7.1mm neu fwy, bydd apwyntiad yn cael ei drefnu i chi drafod hyn gyda meddyg a fydd yn ei esbonio hyn yn fwy manwl.

Yng Nghymru, bydd pelfis yr aren yn parhau i fod yn ymledol mewn tua 2 o bob 10 (20%) babi sydd â RPD ar y sgan anomaledd. Mae’r risg y bydd yn rhaid i’r babanod hyn fynd i’r ysbyty gyda phroblem ar yr arennau yn ystod plentyndod tua 20 gwaith yn fwy nag ar gyfer babanod heb RPD ar y sgan anomaledd (38 o bob 100 o blant o gymharu â 2 o bob 100 o blant). Bydd y meddyg yn trefnu i bediatregydd (meddyg babanod) weld eich babi ar ôl iddo gael ei eni.

**Beth mae’n ei olygu os bydd fy mabi angen apwyntiad dilynol ar ôl iddo gael ei eni?**
Gall y pediatregydd gynnig gwrthfiotigau i’ch babi er mwyn atal haint posibl. Bydd hefyd yn trefnu sgan arall pan fydd eich babi tua phythefnos oed i weld a yw maint y pelfis arennol yn parhau i fod yn lletach (wedi ymledu).

**Mwy o wybodaeth**
Gallwch gael mwy o wybodaeth gan fydwraig yr ysbyty sy'n arbenigo mewn sgrinio cyn-geni neu feddyg yr ysbyty (obstetregydd).

**Antenatal Results and Choices (ARC)**
Gwefan: www.arc-uk.org
Ffôn: 0845 0772290 neu 0207 7137486

Defnyddiwyd gwybodaeth gan CARIS (Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid) a'r Astudiaeth o Famau a Babanod Cymru yn y daflen hon i ddisgrifio sut y gall RPD fod yn bresennol yn eich babi.

© Hawlfraint 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae pob hawl wedi'i chadw. Nid oes hawl gennych i atgynhyrchu'r daflen gyfan neu ran ohoni heb ofyn am ganiatâd perchennog yr hawlfraint.
icc.gig.cymru/sgrinio-cyn-geni
Mawrth 2024
RPD Rhifyn 5